

**Arolygiad o Ddarparwr
Gofal Iechyd Annibynnol
(Ile rhoddwyd rhybudd)
Bliss Beauty by Cerys**

11 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	10
6.	Y Camau Nesaf.....	12
	Atodiad A.....	13

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael yn hwylus i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn dyddiad yr arolygiad

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg ar ddiwrnod yr arolygiad o ba mor dda mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae gwasanaeth 'Bliss Beauty by Cerys' wedi'i gofrestru gydag AGIC fel ysbyty annibynnol ar gyfer darparu triniaethau sy'n defnyddio technoleg golau pwls dwys (IPL)³ yn 101 Heol Talbot, Tonysguboriau, Llantrisant. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ym mis Ebrill 2009.

Mae gan y clinig dîm o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a thri gweithredwr peiriant golau pwls dwys. Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System Golau Pwls Dwys Energist Ultra ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Acne rhosynnaidd
- Cochni
- Brychau oedran
- Brychni haul
- Newidiadau pigment
- Acne
- Llyfnder y croen a mân linellau
- Briwiau fasgwlaidd

³ Mae IPL yn dechnoleg ffynhonnell olau spectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetaidd a therapiwtig.

4. Crynodeb

Mae'r clinig yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Gwelsom fod gan y clinig system addas ar gyfer casglu barn y cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Roeddem yn fodlon bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Gwelsom fod angen diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau.

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod y triniaethau golau pwls dwys yn cael eu rhoi i gleifion yn y clinig mewn ffordd ddiogel. Roedd contract cyfredol gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau ar waith. Roedd pob gweithredwr wedi dilyn hyfforddiant priodol ac roedd y peiriant golau pwls dwys wedi'i wasanaethu'n ddiweddar, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod y clinig yn amlwg yn lân a thaclus ac roedd camau priodol wedi'u cymryd i helpu i warchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith yn y clinig ar gyfer asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn rheolaidd, yn unol â gofynion rheoleiddiol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y triniaethau a'r gwasanaethau yn y clinig yn cael eu cynnal yn unol â'r datganiad o ddiben a'r amodau cofrestru gydag AGIC.

Gwelsom rai mân feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau angenrheidiol yn Atodiad A. Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny'n arwain o bosibl at ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriad ar lafar gyda'r cleifion cyn triniaeth, sy'n cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y driniaeth. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i gleifion fynd adref gyda nhw er mwyn ystyried y driniaeth. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth. Gwelsom enghraifft o wybodaeth ôl-driniaeth a roddwyd i gleifion er mwyn eu helpu gyda gofal dilynol.

Gwelsom dystiolaeth yn dangos y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol. Roedd cofrestr driniaeth yn cael ei chynnal, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Darparwyd amrywiaeth o wybodaeth am driniaethau i'r cleifion, ond nid oedd dogfen ganllaw ar gael i gleifion ac roedd angen datblygu un a fyddai'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn unol â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid creu'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben ar gael, ac roedd yn darparu'r wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom ganfod bod angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ganlynol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau:

- Nifer y staff sy'n gweithio yn y clinig a'u cymwysterau perthnasol, a'r strwythur sefydliadol
- Trefniadau ar gyfer perthnasau, ffrindiau, hebryngwyr yn y clinig
- Datganiad am barchu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gasglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron cleifion ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion eu cwblhau, a dywedwyd wrthym fod arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol. Dywedwyd wrthym fod yr adborth yn cael ei ddadansoddi bob blwyddyn a'i ymgorffori yn yr hyfforddiant i'r staff pan amlygwyd unrhyw feysydd y gellid eu gwella. Mae hyn yn arfer da o ran monitro a chynnal ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn bwriadu rhoi canlyniadau adborth cleifion ar eu gwefan.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y rheolwr cofrestredig a phob gweithredwr peiriant golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant Golau Pwls Dwys, a hyfforddiant ar wybodaeth graidd, o fewn y tair blynedd ddiwethaf⁴.

Gwnaethom edrych ar y rheolau lleol, sy'n rhoi manylion am sut i weithredu'r offer yn ddiogel. Gwelsom fod y rhain wedi'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a phob gweithredwr peiriant golau pwls dwys, er mwyn dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn, ac yn cytuno i'w dilyn. Gwelsom fod y rheolau lleol yn gyfredol a'u bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau.

Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau ar waith, a gwelsom gofnodion o'i ymweliad diwethaf â'r clinig ym mis Ionawr 2016. Gwnaethom drafod ymweliad diwethaf yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd angen cymryd unrhyw gamau.

Gwelsom arwydd tu allan i'r ystafell driniaeth i nodi pryd roedd y peiriant golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom ganfod bod cyfarpar diogelu llygaid addas ar gael, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr allwedd actifadu ddynodedig ar gyfer y peiriant golau pwls dwys yn cael ei symud oddi yno pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, ac yn cael ei gadw'n ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y peiriant golau pwls dwys yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn, er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y clinig, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi dilyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Edrychwyd ar y trefniadau ar gyfer diogelu cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd plant dan 18 oed yn cael eu gweld yn y clinig.

⁴ Mae hyfforddiant gwybodaeth graidd ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau yn ddiogel.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob gweithredwr peiriant golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Roedd polisi wedi'i sefydlu ar reoli heintiau, ond gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu mwy o fanylion i'r polisi, gan gynnwys trefniadau ar gyfer glanhau rhwng apwyntiadau cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys manylion pellach ynghylch y trefniadau glanhau a dadheintio rhwng cleifion yn y clinig.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y clinig er mwyn gwaredu offer miniog a gwastraff clinigol.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom fod y clinig wedi cymryd camau i warchod iechyd a diogelwch y cleifion a'r staff.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth bod y clinig wedi cynnal gwiriad gwifrau yn yr adeilad ac roedd tystysgrif ddiweddar ar gyfer gwiriad nwy ar gael. Nid oedd unrhyw lifft yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch rhag tân. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn, ac roedd arwyddion wedi'u gosod i ddangos yr allanfeydd tân. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau. Roedd asesiad risg ar wahân, yn benodol ar gyfer y peiriant golau pwls dwys a'r ystafell driniaeth, wedi'i gynnal ar gyfer y clinig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Y rheolwr cofrestredig sy'n rhedeg y gwasanaeth 'Bliss Beauty by Cerys'. Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith yn y clinig, er mwyn asesu a monitro ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd. Mae hyn oherwydd bod y clinig, yn unol â'r rheoliadau, yn ceisio barn ei gleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio'r gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion er mwyn sicrhau gwybodaeth gyson, ac yn asesu risgiau o ran iechyd a diogelwch. Roedd y clinig wedi sefydlu proses monitro ansawdd hefyd ar gyfer asesu a gwerthuso canlyniadau triniaethau, ac ar gyfer cofnodi unrhyw ymweliadau dilynol fyddai eu hangen ar y claf.

Roedd trafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig yn dangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol iddo, yn ôl Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y triniaethau a'r gwasanaethau yn y clinig yn cael eu cynnal yn unol â'r datganiad o ddiben a'r amodau cofrestru gydag AGIC.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Roedd polisi gwyno ar gael, ac roedd yn darparu manylion cyswllt AGIC, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Gwelsom fod angen diweddarau cyfeiriad AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r polisi cwyno i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC.

Dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi derbyn cwyn ysgrifenedig. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi paratoi ffeil ar gyfer cofnodi unrhyw gwynion fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion a'u bod yn annog cleifion i roi adborth. Disgrifiodd staff y clinig sut maent yn ceisio osgoi'r angen i gleifion gwyno trwy gyfathrebu â nhw a chymryd camau dilynol. Gwnaethom nodi bod hwn yn arfer da.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod cofnodion cleifion a gwybodaeth berthnasol i driniaethau golau pwls dwys yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn cadw cyfrinachedd cleifion.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan y rheolwr cofrestredig a phob gweithredwr peiriant golau pwls dwys dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwiriadau cyn cyflogi staff addas wedi'u cynnal ar gyfer aelodau newydd o staff a bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu. Gwelsom dystiolaeth o'r hyfforddiant sefydlu a oedd yn cynnwys rhestr o bolisïau perthnasol i'r staff eu darllen a'u llofnodi. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r polisïau, ac y gosodwyd copiâu o'r polisïau wedi'u diweddarau ar hysbysfwrdd y staff er mwyn i bob aelod o'r staff eu darllen a'u llofnodi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y polisïau i gyd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Gwelsom fod llinellau eglur o atebolrwydd ar waith, ac roedd staff y clinig nad oeddent yn weithredwyr peiriannau golau pwls dwys wedi llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall mai dim ond y gweithredwyr hyfforddedig oedd yn cael defnyddio'r peiriant golau pwls dwys a'r cyfarpar cysylltiedig. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal tuag unwaith bob chwe wythnos.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael arfarniadau blynyddol, gan gynnwys hefyd adolygiad o'r polisïau, a chanfod unrhyw anghenion hyfforddi.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd ar gyfer y gwasanaeth 'Bliss Beauty by Cerys' yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Bliss Beauty by Cerys

Dyddiad yr arolygiad:

11 Ionawr 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid creu'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau	Rheoliad 7			
6	Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Dylid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys manylion pellach ynghylch y trefniadau glanhau a dadheintio rhwng cleifion.	Rheoliad 9 (1) (n)			
10	Dylid diweddarau'r polisi cwyno i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC.	Rheoliad 24 (4) (a)			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	<i>Dim meysydd i'w gwella.</i>				

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: